

Cydweithio i gael y gorau o'r ystad gyhoeddus
Working together to make the best use of the public estate

Trosglwyddir Asedau Cymunedol

Trosglwyddir Asedau Cymunedol pan fydd Corff y Sector Cyhoeddus yn trosglwyddo rheolaeth a/neu berchnogaeth ased eiddo i Gyngor Cymuned neu Grwp y Trydydd Sector/Cymunedol. Weithiau, gall hynny gynnwys darparu unrhyw wasanaethau cysylltiedig.



Cynnwys

1	Beth yw Trosglwyddo Asedau Cymunedol?	3
1.1	Pam bod Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn bwysig?	4
1.2	Fframwaith Reolaethol	8
2	Pwy sy'n gallu ymgeisio am Drosglwyddo Asedau Cymunedol?	9
2.1	Ymgeiswyr Arfaethedig	9
3	Canllawiau ar gyfer yr Awdurdod/Corff sy'n Trosglwyddo	10
4	Canllawiau i Ymgeiswyr	14
4.1	Meini Prawf y Cais	14
4.2	Telerau'r Trosglwyddiad	16
4.3	Cysylltu ac Ymgynghori	16
4.4	Ariannu	17
5	Proses Trosglwyddo Asedau Cymunedol	19
5.1	Y Broses Ymgeisio	19
5.2	Amserlenni	20
5.3	Cymryd Penderfyniad	22

1. Beth yw Trosglwyddo Asedau Cymunedol?

Mae Trosglwyddo Asedau'n golygu bod y gymuned yn gallu dod yn berchen a rheoli adnoddau a allai, fel arall, gau os nad yw'r Awdurdod Lleol neu Awdurdodau Cyhoeddus eraill bellach yn gallu i'w hariannu. Weithiau, gellir trosglwyddo am llai na gwerth y farchnad os daw hynny â budd cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol i'r ardal.

Mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol ar gyfer trosglwyddo perchnogaeth a datblygu asedau'n gymunedol wedi bod yn llwyddiannus yng Nghymru ond mae yna hefyd achosion, pan, oherwydd diffyg profiad neu ddiffyg digon o ymchwil a pharatoi, fod ased wedi troi'n faen melin.

Mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cefnogi nerthu cymuned trwy sicrhau fod tir, adeiladau neu wasanaethau'n cael eu cadw neu eu gwedddnewid ac yna'n cael eu defnyddio er budd y cyhoedd gyda'r gymuned yn berchen ac yn rheoli'r asedau.

Cafodd y canllawiau arferion gorau hyn eu paratoi i gynnig cyngor a fydd yn helpu i reoli'r broses ac i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â Throsglwyddo Asedau Cymunedol. Bydd y canllaw yn:

- Gosod y cefndir i Drosglwyddo Asedau Cymunedol tiroedd ac adeiladau;
- Rhestru rhai o'r risgiau mwyaf cyffredin ac awgrymu sut y gellir eu lleihau a'u rheoli;
- Cyfeirio pobl at adnoddau a sefydliadau y gallai Awdurdodau Lleol a Sefydliadau yn y Gymuned eu defnyddio;
- Amlygu rhai enghreifftiau ymarferol ble mae'r trosglwyddiadau wedi llwyddo i ddarparu buddion lleol; a
- Nodi'r ffactorau allweddol ar gyfer llwyddiant.

Mae'r canllawiau hyn yn cael ei gyhoeddi o dan ddarpariaethau adran 60 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i 'wneud unrhyw beth y maen nhw'n ei ystyried yn briodol' i gyflawni, hyrwyddo neu wella lles cymdeithasol ac economaidd Cymru.

Mae'r canllawiau hyn wedi'i baratoi ar gyfer:

- Y rhai sy'n cymryd penderfyniadau mewn Sefydliadau sy'n Trosglwyddo, Cyrff Cyhoeddus yn bennaf megis Llywodraeth Leol, sy'n bwriadu trosglwyddo asedau yn eu hardal;
- Cyngorau Tref a Chymuned a Sefydliadau'r Trydydd Sector yn cael eu harwain gan y gymuned (megis Cymdeithasau Cymunedol, Sefydliadau Gwirfoddol, elusennau, Mentrau Cymdeithasol, Busnesau Cymunedol, Ymddiriedolaethau Datblygu, Cwmnïau Cydweithredol a Cefydliadau Cilyddol), sy'n ystyried ymgeisio am Drosglwyddo Asedau Cymunedol;
- Y cyhoedd ehangach sydd eisiau elwa o drosglwyddo ased a'r gwasanaethau y mae'n ei ddarparu ar gyfer y gymuned.

Does yna'r 'un ateb sy'n addas i bawb' o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

Mae'r canllawiau hyn yn dangos fframwaith y gellir ei defnyddio ar gyfer amrywiaeth eang o drosglwyddiadau ac mae'n pwysleisio nifer o themâu allweddol.

- Dylai Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol gael eu harwain gan y gymuned a chyfarfod ag anghenion a gofyn cymunedol;
- Rhaid i holl fanylion y trosglwyddiad, gan gynnwys goblygiadau llywodraethu ac ariannol, fod yn dryloyw;
- Dylai'r prosiect/trosglwyddiad fod yn gynaliadwy.

Mae yna risg mewn rheoli adeilad neu wasanaeth yn llwyddiannus. Mae'n gallu bod yn arbennig o heriol i Gynghorau Tref a Chymuned, Sefydliadau'r Trydydd Sector a rhai sy'n cael eu harwain gan y gymuned ac sy'n brin o brofiad ac o gyllid. Fodd bynnag, ni ddylid gweld hyn fel rhwystr cyn belled â bod pob parti'n cydnabod y risgiau ac yn fodlon gweithio gyda'i gilydd i ganfod ffyrdd i'w rheoli a'u lliniaru. Bwriad y canllawiau hyn yw helpu a sefydliadau i ymgymryd â hyn oll ac annog Awdurdodau Cyhoeddus i gysylltu'n agored ac yn arloesol gyda'u cymunedau ynghylch dyfodol yr asedau.

Y neges allweddol yn y canllawiau hyn yw y dylai'r ddau barti i unrhyw drosglwyddiad ymddwyn mewn modd tryloyw, bod y ddau yn sylweddoli'r goblygiadau a'r cyfleoedd yn y tymor hir, a'u bod hefyd yn deall yn iawn effeithiau'r goblygiadau hynny ar lwyddiant neu fethiant posibl y fenter yn y dyfodol.

Mae yna nifer o ddogfennau cefnogi i ganlyn y canllawiau hyn, a allai fod yn ddefnyddiol, sef:

- Enghraifft o'r Broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol;
- Astudiaethau Achos;
- Diwydrwydd Dyladwy;
- Ffurflenni a Thempledi Enghreifftiol;
- Gwybodaeth Bellach a Dolenni Defnyddiol.

1.1 Pam bod Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn bwysig?

Gweledigaeth Genediaethol

Mae gan Lywodraeth Cymru genhadaeth i ddarparu ffyniant i bawb a chynllun tymor hir i greu Cymru sy'n ffyniannus ac yn ddiogel, yn iach a bywiog, yn uchelgeisiol ac sy'n dysgu, yn unol a chysylltiedig.

Mae Cymru'n dal i wynebu hinsawdd ariannol anodd na fu ei bath sy'n effeithio ar Wasanaethau Cyhoeddus a'r Trydydd Sector, gyda Llywodraeth y DU yn torri'r gyllideb gyffredinol yn barhaus. Mae hynny wedi golygu bod rhai cymunedau'n cael trafferth i ffynnu ac yn teimlo'n ynysig. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol mewn ysgogi twf economaidd yn yr ardaloedd mwyaf anghenus.

Pan maen nhw ar gael, mae asedau cyhoeddus yn gallu helpu cymunedau ac arweinwyr i wella ardaloedd lleol. Mae'r arbenigedd sydd yn y Sectorau Cyhoeddus a'r Trydydd Sector yn gallu sicrhau'r defnydd tymor hir o asedau a gwasanaethau eiddo yn ogystal â datblygu cymunedau ffyniannus ledled Cymru. Yn aml, mae sefydliadau mentrau cymunedol a chymdeithasol yn cysylltu'n uniongyrchol gyda'r bobl y daw eu gwasanaethu o'n hasedau Sector Cyhoeddus ac mae'r rhain yn gallu dangos safbwynt nad yw Awdurdod Cyhoeddus, efallai, yn gallu ei ddatblygu ei hunan.

Mae yna lawer o enghreifftiau o wasanaethau a mentrau ar draws Cymru sydd wedi trosglwyddo asedau ac sydd, o ganlyniad, yn cael eu rhedeg yn llwyddiannus gan gymunedau. Wrth i fodelau newydd ar gyfer darparu gwasanaeth cyhoeddus ymddangos, mae angen sicrhau fod asedau a gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo mewn modd cynaliadwy.

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru i Gymru, Ffyniant i Bawb- y Strategaeth Genedlaethol (2017), yn cyfuno gwaith y cyfan o'r Sector Cyhoeddus i ddarparu ffyniant i bawb, rhywbeth na all twf economaidd yn unig ei gyflawni. Mae'n anelu at fod person yng Nghymru'n mwynhau ansawdd da o fywyd, yn byw mewn cymuned gref a diogel ac yn rhannu ffyniant Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd asedau cymunedol ac mae ganddi ymrwymiad penodol "i weithio gyda chymunedau i **helpu i gynnal adnoddau lleol sy'n dod â phobl at ei gilydd**, gan gynnwys tafarndai, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, mannau gwyrdd, canolfannau'r celfyddydau a chanolfannau hamdden, gan helpu cymunedau i gymryd perchnogaeth o'u hasedau yn eu hardal pan mai hynny yw'r dewis gorau".

Trosoglwyddo Asedau

Nid oes raid i Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru drosglwyddo asedau cymunedol ac mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol gymryd yr awenau eu hunain yn y broses.

Beth sy'n sbarduno Trosoglwyddo Ased Cymunedol

- Gan fod gwariant cyhoeddus o dan bwysau, mae nifer o Awdurdodau Cyhoeddus eisiau canfod ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau lleol sy'n canolbwyntio ar gynyddu effeithiolrwydd ac arbed costau;
- I lawer o Gyngorau Tref a Chymuned, sefydliadau yn y gymuned, mentrau cymdeithasol a sefydliadau gwirfoddol, bydd hynny'n creu cyfleoedd i gymryd rhywfaint o reolaeth/perchnogaeth o adnoddau, a fydd yn gosod sylfaeni cryf ar gyfer tyfu yn y dyfodol drwy feithrin sgiliau a dealltwriaeth lleol;

- Gallai Cyrff Cyhoeddus ystyried trosglwyddo asedau oherwydd pwysau ariannol neu newidiadau mewn strategaeth.

Fel gydag unrhyw newidiadau arfaethedig, mae yna risgiau'n codi, ond hefyd lawer iawn o gyfleoedd. Drwy Drosglwyddo Asedau Cymunedol, gall adeilad cyhoeddus ffynnu neu gall gwasanaeth ymylol droi yn adnodd a menter gymunedol hyfyw. Ond, nid yw hyn yn addas ar gyfer pob cymuned, bydd llawer yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ac ar hyfywdra yr ased sy'n cael ei drosglwyddo.

Methodoleg yw Trosglwyddo Asedau Cyhoeddus y mae'n rhaid iddi ganolbwyntio ar fod o fantais i bawb a bod â gweledigaeth y mae pawb yn ei rhannu i gyrraedd nod. Pan fo eiddo'n cael ei drosglwyddo, dylai'r Grŵp Cymunedol a'r Corff Cyhoeddus weithio gyda'i gilydd er mwyn symud ymlaen. Drwy weithredu fel hyn, yr uchelgais yw y bydd pob Corff Cyhoeddus yn darparu gwell gwasanaethau, ar y cyd â'u cymunedau, a thrwy gysylltu'n well â'i gilydd. Dylai hynny agor y drws i gymunedau – Cyngorau Tref a Chymuned neu Sefydliadau'r Trydydd Sector yn cael eu harwain gan y gymuned neu gyfuniad o'r ddau – i ddod yn berchen ac i reoli gwasanaethau lleol, os yw hynny'n briodol, a dilyn y traddodiad Cymreig o feithrin sefydliadau cydweithredol a chilyddol.

Dim ond drwy weithio ar draws sectorau y bydd asedau cymunedol yn cael eu trosglwyddo'n llwyddiannus. Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth o Awdurdodau Lleol cryfach, wedi'u nerthu'n fwy, sy'n gallu darparu arweinyddiaeth leol eofn, penderfynol ac sy'n hoelio sylw. Mae Cyngorau angen gofod i ffynnu, i fod yn arloesol ac i gydweithio'n effeithiol gyda phartneriaid ar lefel genedlaethol, rhanbarthol, lleol ac 'hynod leol' gyda llinellau clir o atebolrwydd i ddinasyddion.

Mae hynny'n galluogi Cyngorau Tref a Chymuned, cyrff neu sefydliadau cymunedol i ddangos hyfywdra eu cynigion ac i ddangos hefyd bod ganddyn nhw'r gallu a'r medrusrwydd i reoli a datblygu'r ased yn briodol.

Daw'r gefnogaeth i adeiladu cymunedau cryf, hunan-ddibynnol a gwydn mewn sawl ffurf ac mae trosglwyddo asedau cymunedol yn gallu chwarae rhan fawr yn hynny. Mae galluogi cymunedau i gymryd rheolaeth o'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw wrth ddarparu gwasanaethau effeithlon ar draws Cymru yn gam hanfodol ymlaen ac i'w groesawu. Mae trosglwyddo asedau i berchnogaeth a rheolaeth y gymuned yn cael ei gydnabod fel modd o fuddsoddi mewn adfywio ac o ddarparu newid cymdeithasol economaidd ac amgylcheddol positif.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn un o'r ffactorau allweddol sy'n helpu cyrff cyhoeddus i ddod at eu gilydd, i gydweithredu ac i ddarparu gwelliannau er lles pobl a chymunedau ledled Cymru.

Daeth y Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2016 gyda'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Dylai'r Cyrff Cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf, gan gynnwys y rhai sydd eisiau trosglwyddo asedau, feddwl mwy ynghylch y tymor hir trwy gynnwys pobl a chymunedau a chydweithredu gyda phartneriaid o bob sector er mwyn magu agwedd mwy cyfun a chynaliadwy.

Gallai agwedd gyfun arwain at atebion arloesol sy'n diogelu yn erbyn problemau, ar hyn o bryd ac i genedlaethau'r dyfodol. Dim ond i Gyrff Cyhoeddus penodol y mae'r Ddeddf yn berthnasol, ac nid i Sefydliadau'r Trydydd Sector yn uniongyrchol, ond mae llawer o Gyngorau Tref a Chymuned a Sefydliadau Cymunedol wedi croesawu gweledigaeth ac egwyddorion y Ddeddf i wella llesiant eu hardal.

Y saith nod llesiant yw:

- Cymru ffyniannus, garbon isel
- Cymru sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru fywiog yn ddiwylliannol gyda'i hiaith ei hun
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang



Gall Trosglwyddo Asedau Cymunedol gael effaith bositif a gall Cyrff Cyhoeddus ddangos eu bod yn cynnwys ac yn cydweithredu gyda phobl a sefydliadau.

Bydd y rhai sy'n derbyn ased angen arweiniad a chefnogaeth er mwyn deall sut i ddefnyddio'r pum ffordd o weithio i sicrhau eu cyfraniad at nodau'r Ddeddf, er nad oes ddyletswydd arnyn nhw i wneud hynny.

Y pum ffordd gynaliadwy o weithio yw:



Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.



Atal

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.



Integreiddio

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.



Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.



Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

1.2 Fframwaith Reolaethol

Mae gan Awdurdodau Lleol hawl i waredu tir mewn nifer o ffyrdd. Fodd bynnag, yn ôl yr arweiniad swyddogol gan Llywodraethau'r DU a Chymru, dylai Awdurdodau Cyhoeddus waredu eiddo yn briodol a bod yn gallu cyfrif am hynny.

Fel arfer mae Asedau Cyhoeddus yn cael eu gwaredu ar sail fasnachol oherwydd y gofyniad cyfreithiol cyffredinol bod yn rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus gael y gwerth gorau am yr eiddo, sy'n cael ei alw weithiau yr 'ystyriaeth orau'.

Fodd bynnag, bydd amgylchiadau'n codi pan fydd awdurdod lleol yn gallu gwaredu ased am lai na gwerth llawn y farchnad a hynny, fel arfer, pan fyddai gwaredu'r o fudd i'r gymuned trwy 'hyrwyddo neu wella' lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal neu os yw gwerth yr ased sydd i'w waredu'n llai na £2 miliwn. Mae hynny'n cael ei ganiatáu gan ddarpariaethau 'Caniatâd Gwaredu Cyffredinol' (Cymru) Rhagfyr 2003¹ a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Dylai Awdurdodau Lleol hefyd gofio fod gofynion penodol ynghylch caeau chwarae yn "Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015". Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y rheoliadau hyn ar: <https://gov.wales/topics/localgovernment/publications/playing-fields-regulations-2015/?lang=en>

Mae Ystadau Cymru (y Gweithgor Asedau Cenedlaethol, gynt) yn ddylanwadol ar draws y Sector Cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n annog arferion gorau ynghylch rheoli asedau cydweithredol. Mae'n argymhell y dylai Cyrff Cyhoeddus, cyn cynnig asedau ar y farchnad agored, ddangos i'r Sector Cyhoeddus ehangach eu bod ar gael ac nad yw'n ei gwneud yn anodd i Grwpiau Cymunedol fynd at gynghorau os oes ganddyn nhw ddiddordeb a allai arwain at gynnig busnes. Mae ffyrdd o hyrwyddo cydweithredu'n cynnwys amlygu diddordeb mewn ased penodol neu ei bod yn debyg o gael ei waredu a chyhoeddi gwybodaeth ar wefannau awdurdodau lleol, drwy hysbysebu'n lleol neu drwy restru ar Eiddo Cyhoeddus ar gael yng Nghymru ar Gofod Cymru; mae rhagor o wybodaeth ar gael ar: <https://e-pims.cabinetoffice.gov.uk/SpaceCymru/Home.aspx>

Mae angen ystyried y rheolau cyfreithiol ynghylch Cymorth Gwladwriaethol, term y Comisiwn Ewropeaidd sy'n cyfeirio at gymorth oddi wrth gorff wedi'i ariannu'n gyhoeddus sydd ar gael i ddewis o sefydliadau sy'n weithgar yn economaidd. Fodd bynnag, cyn belled â bod pob parti'n deall yn fframwaith reolaethol, daw ateb yn aml ynghylch y ffordd orau o symud ymlaen. Mae rhagor o wybodaeth a chynghor ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://gweddiill.gov.wales/funding/state-aid/?skip=1&lang=cy>

¹ Mae Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) Rhagfyr 2013 yn berthnasol i'r awdurdodau canlynol yng Nghymru: cynghorau sirol a bwrdeistrefol sirol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân a gyfansoddwyd o dan gynllun cyfuno, awdurdodau heddlu ac awdurdodau parciau cenedlaethol. Mae gan awdurdodau bwerau, o dan adrannau 123 ac 127 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") i waredu tir mewn unrhyw fodd yn ôl eu dymuniad cyn belled nad yw'r gwarediad am lai na'i werth. Gwaredu am lai na'i werth yw gwaredu am lai na'r pris gorau y gellir yn rhesymol ei gael.

2. Pwy sy'n gallu ymgeisio am Drosoglwyddo Asedau Cymunedol?

2.1 Ymgeiswyr Arfaethedig

- (i) Cyngorau Tref a Chymuned yw'r llywodraeth fwyaf lleol yng Nghymru ac maen nhw'n gweithio i wella ansawdd bywyd a'r amgylchedd i bobl eu hardal. Ar hyn o bryd mae yna 735 o Gyngorau Tref a Chymuned ledled Cymru, maen nhw'n atebol i bobl leol ac â dyletswydd i gynrychioli'n gyfartal diddordebau gwahanol rannu o'r gymuned. Mae tua 8,000 o Gyngorwyr Tref a Chymuned yng Nghymru. Mae cefnogaeth a chynghor ar gael i Gyngorau Cymuned ynghylch Trosoglwyddo Asedau Cymunedol trwy Un Llais Cymru, corff cenedlaethol sy'n cynrychioli'r sector Cyngorau Tref a Chymuned ac sydd yn cyrsiau hyfforddi penodol ar ddatganoli gwasanaethau. Mae dros 80 y cant o Gyngorau Tref a Chymuned yn aelodau o Un Llais Cymru, ond mae'r hyfforddiant ar gael hefyd i'r holl Gyngorau Tref a Chymuned yng Nghymru.
- (ii) Mae'r Trydydd Sector yn cynnwys sefydliadau annibynnol, anllwyodraethol sy'n cael eu gyrru gan werth yn hytrach nag elw ac yn cael eu hysgogi gan amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol. Mae unrhyw weddillion yn cael eu hail fuddsoddi er mwyn datblygu eu nodau cymdeithasol ymhellach er budd y bobl a'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys elusennau, Sefydliadau Gwirfoddol/Cymunedol, mentrau cymdeithasol a chymdeithasau cilyddol.
- (iii) Gall Grwpiau Cymunedol, wedi'u hen sefydlu neu wedi'u ffurfio'n ddiweddar, ymgeisio am asedau cymunedol.

Pan fydd cyrff trosglwyddo'n datblygu'u canllawiau ar gyfer Trosoglwyddo Asedau Cymunedol, maen nhw, fel arfer, yn diffinio pa fath o sefydliadau sy'n gallu ymgeisio a hefyd yn dangos yn glir y gofynion sylfaenol o ran:

- Strwythurau llywodraethu;
- Sgiliau a gallu;
- Y dogfennau mandadol gofynnol e.e. cyfansoddiad, adroddiadau a chyfrifon blynyddol.
- Dylai polisïau Trosoglwyddo Asedau Cymunedol fod yn ddigon hyblyg a pheidio ag eithrio sefydliadau cyn belled â'u bod yn cyfarfod â meini prawf gofynnol o ran llywodraethu, cyfreithiol a chynaliadwyedd. Mewn achosion lle mae'r strwythur cyfreithiol yn newydd, ac heb unrhyw hanes na llwyddiant blaenorol, gallai heriau godi o ran risg, caffael ac ystyriaethau diwydrwydd dyledus. Fodd bynnag, ni ddylai hynny eithrio sefydliadau newydd rhag cymryd rhan yn y broses Trosoglwyddo Asedau Cymunedol a dylai Awdurdodau/Cyrff Trosoglwyddo sicrhau fod eu gweithdrefnau'n ddigon hyblyg i gynnwys y gofynion hyn.

Gall Sefydliadau Trydydd Sector, wedi'u hen sefydlu neu wedi'u ffurfio'n benodol at y diben o dderbyn cyfrifoldeb am ased penodol, gael cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer Trosoglwyddo Asedau Cymunedol gan eu Cyngor Gwirfoddol Sirol a/neu'r Cyngor Gwirfoddol Gweithredu Cymru (WCVA); Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru; Canolfan Cydweithredol Cymru a chyrff eraill sy'n cefnogi mentrau cymdeithasol.

3. Canllawiau ar gyfer yr Awdurdod/Corff sy'n Trosglwyddo

Fel mater o arfer da, dylai polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol fod yn rhan o broses cynllunio rheoli asedau. Mae dolenni at bolisiâu Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn y ddogfen Gwybodaeth Bellach a Dolenni Defnyddiol. Fel rhan o unrhyw strategaeth ynghylch bwriad i drosglwyddo neu waredu, dylai awdurdod hysbysu y Cyngor Tref neu Gymuned Lleol, Sefydliadau Trydydd Sector a Grwpiau Cymunedol, yn gynnar, y bydd efallai, yn gwaredu ased a allai fod o werth cymunedol. Bydd hynny'n rhoi cyfle i bartion â diddordeb ystyried a yw'r ased, ac o bosibl y gwasanaethau sy'n cael eu darparu trwyddo, yn rhywbeth y gallen nhw ddangos diddordeb mewn ei gymryd drosodd, a threfnu i wneud hynny.

Dylid ystyried sut y mae'r polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cydfynd â'r fframwaith polisi ac â phroses gynllunio bresennol yr awdurdod. Bydd hynny'n cynnwys dogfennau corfforaethol megis eu Cynllun Corfforaethol (a allai gynnwys eu hamcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol), Cynlluniau Llesiant Lleol a strategaethau eiddo gan gynnwys Cynlluniau Rheoli Asedau Corfforaethol a pholisiâu Caffael a Gwaredu.

Wrth ystyried trosglwyddo ased i Gyngor Tref neu Gymuned, Grŵp Cymunedol neu Sefydliad Trydydd Sector, dylai'r Corff/Awdurdod Trosglwydd sicrhau, oherwydd y bydd trosglwyddiadau'n amrywio mewn math a maint, bod ganddo bolisi cadarn ond hyblyg, ei fod yn ystyried cymesuredd ac yn defnyddio synnwyr cyffredin. Er enghraifft, bydd gofynion canolfan gymunedol fechan sydd angen ond ychydig o waith cyfalaf yn wahanol i ased mwy, hŷn a fydd angen gwaith a buddsoddiad sylweddol gan y derbynnydd.

Er bod yr egwyddor o Grŵp Cymunedol yn cymryd dros adeilad neu wasanaeth yn ddeniadol, mae gan yr Awdurdod Gyfrifoldeb i sicrhau fod y cynnig yn glynu at strategaeth yr awdurdod a bod unrhyw Gyngor Tref neu Gymuned, Grŵp Cymunedol neu Sefydliad Trydydd Sector sy'n mynegi diddordeb, yn deall yn iawn yr atebolrwydd a'r cyfrifoldebau y bydd yn eu hwynebu.

Sut i nodi asedau sy'n addas ar gyfer eu trosglwyddo

Mae Cynghorau Tref a Chymuned a Sefydliad Trydydd Sector wedi nodi y gallai fod yn anodd gwybod pa asedau sydd ar gael i'w trosglwyddo. Dylid nodi'n glir unrhyw asedau penodol sydd i'w heithrio o'r polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol, er enghraifft, mae rhai Awdurdodau Lleol/Cyrff Cyhoeddus yn eithrio'n benodol eiddo sy'n cael ei ddal at ddibenion datblygu economaidd. Dylai'r polisi reoli disgwyliadau ynghylch asedau a allai gynhyrchu derbyniadau cyfalaf sylweddol o gael eu gwerthu ar y farchnad agored. Er enghraifft, gellid dangos fod y corff sy'n trosglwyddo angen cynhyrchu derbyniadau cyfalaf i helpu ariannu prosiectau cyfalaf. Gellir nodi asedau addas mewn sawl ffordd a dylai'r polisi fod yn ddigon hyblyg ar gyfer pob amgylchiad.

Prosesau Cynllunio Rheoli Asedau

Dylai fod gan Gyrff Cyhoeddus/Awdurdodau Lleol broses cynllunio rheoli asedau sy'n cynnwys adolygu eu daliadau eiddo'n rheolaidd. Dylai'r broses waredu gynnwys yr asedau sy'n cael eu datgan yn weddill i anghenion ac a allai fod ar gael i'w trosglwyddo i'r gymuned.

Os yn briodol, dylai asedau a nodir fel rhai addas ar gyfer trosglwyddo cymunedol gael eu nodi pan fydd cyfle'n codi er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder.

Mae Ystadau Cymru a 'Ystad Cydlynu a Protocol Trosglwyddo Tir' Llywodraeth Cymru'n argymhell dangos yr eiddo sydd ar gael ar e-PIMS². Dylai sefydliadau â diddordeb gael cynnig i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb (gweler isod) o fewn cyfnod penodol, a fydd yn dibynnu ar yr ased ac ar natur y trosglwyddiad. Gellir cyfyngu hynny i sefydliadau penodol, yn enwedig os bydd elfen o ddarparu gwasanaeth hefyd yn cael ei drosglwyddo. Fodd bynnag, bydd yna hefyd amgylchiadau pan allai'r Corff/Awdurdod Trosglwyddo ddymuno cysylltu â sefydliad penodol a dylai fod darpariaeth yn y polisi ar gyfer achosion o'r fath.

Y Cyd-destun Strategol

Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw gynnydd i drosglwyddo asedau'n cefnogi nodau a blaenoriaethau'r corff sy'n trosglwyddo a'i fod yn unol â'r blaenoriaethau ariannol y bydd yn cael ei ystyried yn eu herbyn.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd diwydrwydd dyladwy'n helpu i amddiffyn y Corff Trosglwyddo yn ogystal â'r Grŵp Cymunedol/Sefydliad Trydydd Sector, ei gleientiaid a'r gymuned.

Mae elfennau allweddol y broses diwydrwydd dyladwy'n cynnwys:

- A yw'r ased yn addas i gael ei throsglwyddo drwy Drosglwyddiad Asedau Cymunedol? Os nac yw, dylid datgan hynny o'r dechrau;
- A yw'r Corff/Awdurdod Trosglwyddo wedi ystyried effaith Trosglwyddo Asedau Cymunedol ar gyfle pobl i ddefnyddio'r Gymraeg; neu sut na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? A ystyriwyd sut y gellid cymryd y penderfyniad i sicrhau ei fod yn effeithio'n positif neu'n fwy positif; neu fel nad yw'n effeithio'n andwyol neu'n llai andwyol ar

gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg? Sut ellid sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ôl y trosglwyddo? Mae hynny hefyd yn berthnasol i wasanaethau sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd trwy gyfrwng y Gymraeg a sut y bydd y gwasanaethau hynny'n parhau;

- A oes asesiad risg wedi'i gynnal i weld ai Trosglwyddo Asedau Cymunedol yw'r broses gywir ar gyfer rheoli'r ased; a beth fyddai'n digwydd i'r ased pe na byddai derbynnydd yr ased a drosglwyddwyd yn bodoli yn y dyfodol?
- Pa fesurau a ellid eu sefydlu cyn y trosglwyddo er mwyn gwarchod hyn, megis telerau contract, cyfamodau ac asesiad o allu'r sefydliad sy'n derbyn i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg? Sut fyddai hynny'n cael ei fonitro ar ôl y trosglwyddo?
- Sut fyddai trosglwyddo'n effeithio ar unrhyw gyfleoedd yn y dyfodol i ddefnyddio asedau cyfagos sy'n cael eu cadw gan y trosglwyddydd?
- Sicrhau fod trefniadaeth y Cyngor Tref neu Gymuned/Grŵp Cymunedol/Trydydd Sector yn berthnasol, yn ddealladwy ac yn gynaliadwy er mwyn cael peth sicrwydd o allu i reoli'r ased ac i gyflawni'r buddion a ddymunir.

Bydd angen ystyried effeithiau ffactorau megis llywodraethu, cadernid ariannol, gwybodaeth a sgiliau perthnasol a phrofiad o ddarparu yn y gymuned ar y Cyngor Tref neu Gymuned a/neu Grŵp Cymunedol.

Mae costau rhedeg gwirioneddol yn gallu amrywio gan fod rhai grwpiau yn gallu lleihau rhai costau, megis defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer glanhau/gofalu neu fod â hawl i ostyngiad yn y trethi. Er mwyn gallu rhagweld

2. Llwyfan TG Llywodraeth y DU yw'r Gwasanaeth Electronig Mapio Gwybodaeth Eiddo sydd wedi'i ddylunio i gasglu gwybodaeth ynghylch eiddo yn y sector cyhoeddus. Mae ar gael i sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i'w cynorthwyo gyda chynllunio rheoli eiddo'n strategol drwy gofnodi a rhannu gwybodaeth ynghylch pwy sy'n dal beth ac ymhle.

costau'r dyfodol yn gywir, dylid hefyd gyflwyno i'r rhai sy'n derbyn yr ased arolygon cyflwr, costau hanesyddol ynghylch cynnal a chadw a rhedeg yr eiddo a gwybodaeth berthnasol ynghylch contractau cyfreithiol gyda darparwyr gwasanaethau i'r eiddo a'r gwybodaeth ynghylch faint o ynni y mae'r ased yn ei ddefnyddio. Dylid sicrhau fod unrhyw gyfrifoldebau o ran trwsio, amodau cynllunio, cyfamodau cyfyngu, gofynion mynediad ayb yn glir a bod y grŵp yn eu deall yn iawn, yn enwedig y cyfrifoldebau cyfreithiol.

Mae'n bwysig nodi nad oes y fath beth â Throsglwyddo Asedau Cymunedol safonol ac y bydd yr wybodaeth ar gyfer pob ased yn wahanol. Gyda rhai Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol, dim ond eiddo sy'n cael ei drosglwyddo, a allai, mewn rhai achosion, fod wedi sefyll yn wag am sawl blwyddyn. Gyda rhai eraill, bydd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu o'r ased hefyd yn cael ei drosglwyddo, ac os felly, dylid cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. Dylai Awdurdodau Lleol neu Gyrrff Trosglwyddo eraill geisio darparu, ym mhob achos, pob gwybodaeth sydd ar gael ac sy'n berthnasol. Dylid gwneud hynny heb fynnu bod y Corff Trosglwyddo yn darparu rhestr o ddogfennau neu ddata efallai nad yw'n bodoli neu nad yw'n berthnasol i sefyllfa benodol.

Mae rhagor o fanylion yn y ddogfen Diwydrwydd Daladwy.

Cysylltiadau â Darparu Gwasanaeth

Yn yr amseroedd heriol hyn o bwysau ariannol, efallai y bydd angen i grwpiau cymunedol a Chynghorau Tref a Chymuned gymryd gwasanaeth oddi ar Gorff Cyhoeddus er mwyn cynnal gwasanaethau lleol ac mae yna nifer o enghreifftiau o'r gymuned yn arwain yn llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaeth. Dylai Sefydliadau a Chyrrff Trosglwyddo a'r Grwpiau/Sefydliadau

Cymunedol sy'n ystyried derbyn ased ac unrhyw wasanaethau cysylltiedig, fod yn gallu ateb y cwestiynau canlynol:

- Pwy fydd y gynulleidfa darged/y bobl a fydd yn derbyn budd o'r gwasanaeth?
- Sut y gellir moderneiddio a gwella'r gwasanaeth?
- A yw'r gwasanaeth yn statudol neu'n anstatudol?
- Sut fydd y Grŵp Cymunedol/Sefydliad yn sicrhau ei fod yna darparu gwasanaethau a chyfleoedd i aelodau'r gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg ac nad yw'n trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg?
- Oes yna unrhyw safonau cyfreithiol ar gyfer darparu'r gwasanaeth, megis y rhai a osodir o dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011?
- Pa lefel o lety fydd eu hangen?
- Pa gyllideb sydd ar gael a sut y gellir cyfarod â chostau o rhedeg yr adeilad?
- Oes yna unrhyw adeiladau eraill (mewn perchnogaeth gyhoeddus neu breifat) a fyddai'n fwy priodol ar gyfer darparu gwasanaeth?
- Sut y bydd costau'r eiddo'n cael eu cyfarfod? (Cyflwynwch y ddarpariaeth a'r costau presennol fel arweiniad i'r Grŵp Cymunedol neu'r Cyngor Tref/Cymuned).
- Pa arbedion yn y gyllideb, os o gwbl, fydd yn deillio i'r gwasanaeth o'r cynnig?
- Pa arbedion yng nghostau'r eiddo, os o gwbl, fydd y cyngor yn eu cael ar ôl Trosglwyddo Asedau Cymunedol?
- A yw'r Corff Trosglwyddo wedi paratoi Achos Gwaredu ac a yw ar gael i'r corff sy'n bwriadu derbyn ei ystyried?
- A yw'r Corff Trosglwyddo wedi paratoi Asesiad Effaith Amgylcheddol ac a yw ar gael i'r corff a fyddai'n derbyn ei ystyried?
- A yw'r Corff Trosglwyddo wedi paratoi Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac a yw ar gael i'r corff a fyddai'n derbyn ei ystyried?

- A fydd unrhyw gefnogaeth barhaus, yn ariannol, cyfreithiol neu o ran rheoli ar gael gan yr Awdurdod Trosglwyddo? Mae hyn yn arbennig o bwysig os bydd y trosglwyddo'n cynnwys unrhyw atebolrwydd parhaus, megis cynnal a chadw blynyddol, costau dibrisiant, atebolrwydd statudol (adeiladau rhestredig) neu atebolrwydd TUPE gan gynnwys atebolrwydd diswyddo a phensiynau.

Mae gwasanaethau'n cael eu darparu gan bobl yn ogystal ag ar gyfer pobl. Os yw staff presennol y Cyngor yn gweithio mewn adeilad sy'n cael ei ystyried ar gyfer ei drosglwyddo, fe fydden nhw, o dan rai amgylchiadau, yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r sefydliad sy'n derbyn o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 a 2014 (TUPE). Bydd eu hawliau cyflogaeth, gan gynnwys eu telerau a'u hamodau cytundebol, yn cael eu diogelu gan y math hwn o drosglwyddiad.

Dylai Awdurdodau Trosglwyddo datrys materion TUPE cyn trosglwyddo ased. Mae'n bwysig fod yr holl bartïon â rhan yn cael cyngor cyfreithiol i ddeall yn iawn yr holl oblygiadau, costau a risgiau, rhai presennol a'r rhai a allai godi yn y dyfodol. Mae cyngor cyfreithiol annibynnol ar gael i'r cyrff sy'n derbyn yn rhad ac am ddim gan ACAS ar Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (TUPE).

Gallai pensiynau fod yn broblem benodol pan fydd staff yn trosglwyddo ac mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi cyhoeddi Polisi Bargen Deg ar gyfer Pensiynau Staff (Hydref 2013), sy'n berthnasol i nifer o gyrff. Mae'n datgan y dylai gweithwyr sy'n trosglwyddo "ddal i allu bod yn rhan o gynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus perthnasol yn hytrach na chael cynnig cynllun pensiwn preifat sydd fwy na lai'n gymharol".

Yr Adran dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol sy'n gyfrifol am Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Bu'n ymgynghori (yn 2016 a 2019) ynghylch newid y rheoliadau perthnasol i adlewyrchu darpariaethau'r Fargen Deg newydd mewn perthynas â gweithwyr yn y cynllun. Ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, nid yw canlyniad ymgynghoriad 2019 yn wybyddus ac mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod trefniadau pensiwn ar gyfer staff cynghorau sir neu fwrdeistrefi sirol³ sy'n cael eu trosglwyddo fel rhan o drosglwyddo ased cymunedol "yr un fath neu fwy na lai yr un fath neu'n well" na'r rhai oedd gan y gweithwyr cyn y trosglwyddiad.

Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd Awdurdodau Lleol sy'n symud ymlaen gyda Throsglwyddo Asedau Cymunedol yn mabwysiadu egwyddorion y Fargen Deg Newydd. Mae'n rhaid iddyn nhw sicrhau y bydd staff syw'n cael eu trosglwyddo'n dal yn aelodau o'u pensiwn Sector Cyhoeddus presennol trwy gyfrwng statws corff cydnabyddedig neu drwy ffyrdd eraill priodol.

Cynlluniau Corfforaethol

Dylid gwneud yn siŵr fod pob gwasanaeth yn yr awdurdod yn sylweddoli'r buddion y gallai cymuned eu cael trwy drosglwyddo asedau a sut y gallai trosglwyddiadau unigol gefnogi Cynlluniau Llesiant. Dylai'r rhain gysylltu â fframwaith polisi a phrosesau cynllunio presennol yr awdurdod a chynnwys cynlluniau corfforaethol a strategaethau eiddo, yn ogystal â Chynlluniau Rheoli Asedau Corfforaethol a pholisïau Caffael a Gwaredu.

Mae gwybodaeth bellach i'w gael drwy'r dolenni perthnasol yn y ddogfen Gwybodaeth Bellach a Dolenni Defnyddiol.

3 Y mae eu darpariaeth pensiwn wedi'i diogelu o dan Gyfarwyddid Trosglwyddiadau Staff Awdurdodau Lleol Cymru (Pensiynau) 2012.

4. Canllawiau i Ymgeiswyr

Pan fydd Cyngor Tref neu Gymuned neu sefydliad/grŵp cymunedol yn ymgeisio am Drosoglwyddo Asedau Cymunedol, daw'n gyfarwydd â'r broses a gytunir gyda'r Awdurdod Trosoglwyddo. Dylid ystyried hwn fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu sgiliau cyn trosglwyddo. Mae arweiniad pellach ar hyn yn adran 4.3.

Rhaid i sefydliadau gofio cymaint o ymrwymiad y mae'n rhaid ei gael i gynnal yr ased yn llwyddiannus ar ôl y trosglwyddo ac hefyd i gynnal y sefydliad yn y tymor hir. Ond mae angen ymdrech wahanol iawn i sicrhau bod ased yn trosglwyddo o Awdurdod. Mae tueddiad i ganolbwyntio ar y broses trosglwyddo ei hunan, ond mae gofyn i Awdurdodau sy'n trosglwyddo hefyd ystyried yn ofalus y mesurau a'r prosesau sydd eu hangen er mwyn cefnogi sefydliadau sy'n derbyn y trosglwyddiad. Bydd hynny'n rhoi rhywfaint o gynaliadwyedd a hirhoedledd i sefydliadau ynghylch yr ased sydd wedi'i drosglwyddo.

4.1 Meini Prawf y Cais

Yn y lle cyntaf bydd raid i'r ymgeisydd ystyried y canlynol:

a) Bydd raid i'r ymgeisydd fodloni'r meini prawf canlynol:

- Fod yr endid cyfreithiol wedi'i ymgorffori ac yn rhoi atebolrwydd cyfyngedig i'r rhanddeiliaid. Fel arfer bydd hynny ar ffurf cwmni cyfyngedig trwy warant; nid er elw; cymdeithas; Sefydliad Corfforedig Elusennol neu Gwmni Buddiannau Cymunedol. Mae'n rhaid fod ganddo awdurdod i allu rheoli a bod yn berchen ar adeiladau, i fasnachu ac i ddarparu gwasanaethau;
- Bodoli er budd cymunedol/cymdeithasol/amgylcheddol;

- Dosbarthu ar sail nid er elw – rhaid ail fuddsoddi unrhyw weddillion i hybu'r buddion cymunedol/nodau cymdeithasol;
- Dangos llywodraethu da trwy brosesau agored ac atebol, gyda'r rheolaeth ariannol ac archwilio priodol;
- Dangos cysylltiad â'r gymuned;
- Dangos fod ganddo'r sgiliau a'r gallu i ddarparu'i wasanaethau ac i reoli'r ased yn effeithiol;
- Darparu gwasanaethau neu gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at fuddion economaidd, amgylcheddol neu gymdeithasol i'r gymuned;
- Darparu copïau o adroddiad blynyddol a chyfrifon y sefydliad, os ar gael;
- Bod â chysylltiadau cryf gyda'r gymuned leol a chyflenwi buddion uniongyrchol i'r bobl sy'n byw yno;
- Rhoi buddion i amrywiaeth mor eang ac amrywiol o bobl leol ag sy'n bosibl, dangos ei fod yn gynhwysol i bob aelod o'r gymuned a defnyddio proses o gymryd penderfyniadau sy'n cael ei dylanwadu gan bobl leol.

b) Yr ased

- Buddiant cyfreithiol ym mherchnogaeth yr Awdurdod Trosoglwyddo y gall y sefydliad ei ddefnyddio i ddangos budd cymunedol;
- Mae gan y Corff Trosoglwyddo ryddfrait neu brydles ar yr ased;
- Dylid annog ceisiadau ar gyfer aml ddefnydd a chyd leoli gwasanaethau. Ni fydd defnydd sengl yn cael ei ystyried oni bai fod yna achos busnes arwyddocaol dros hynny.

c) Defnydd Arfaethedig

- Dylai fod yna angen a gofyn am y gweithgareddau arfaethedig a dylid ystyried a oes sefydliad arall yn eu cyflawni'n foddhaol ai peidio;
- Bydd y defnydd arfaethedig yn cefnogi cyflawni amcanion llesiant a/neu gynllun lleisiant lleol y corff trosglwyddo;
- Bydd y defnydd arfaethedig yn gwneud y gorau o gyfleoedd i gynhyrchu incwm er mwyn sicrhau cynaliadwyedd;
- Mae'r Cyngor Tref neu Gymuned neu Sefydliad Trydydd Sector wedi sefydlu faint o le y mae ei angen i gyflawni ei gynigion a sut y gwneir y defnydd gorau o'r ased;
- Bydd y defnydd arfaethedig yn ymestyn ei gyrhaeddiad yn eang a chynhwysol i'r gymuned a bydd ar agor i bawb.

d) Cynllun Busnes a Chyllid

Os yw unrhyw drosglwyddiad i lwyddo, mae'n rhaid cael cynllun busnes cadarn sy'n dangos yn glir allu i weithredu, i ddarparu gwasanaeth a bod gan y sefydliad ddarpariaethau ariannol a threfniadol er mwyn darparu'r gwasanaethau/gweithgareddau arfaethedig ac i reoli'r ased.

Mae templedi cynllun busnes a rhagolygon ariannol, gyda chanllawiau, ar gael yn y ddogfen Ffurflenni a Thempledi.

Bydd graddau a manylion yr achos busnes yn amrywio gyda'r math o asedau/gwasanaethau sy'n cael eu trosglwyddo. Mae'n rhaid i'r broses diwydrwydd dyladwy fod yn gymesur â'r trosglwyddo ased/gwasanaeth, y defnydd arfaethedig o'r ased, y model llywodraethu presennol a gallu a hanes blaenorol y sefydliad cymunedol sy'n derbyn.

Ceisiadau oddi wrth Denantiaid Presennol

Mae llawer o Awdurdodau Lleol a Sefydliadau eraill eisoes yn defnyddio'u hadeiladau fel asedau cymunedol. Efallai y bydd Sefydliadau Cymunedol sy'n defnyddio adeilad Awdurdod Lleol yn dymuno amrywio eu telerau, er enghraifft, trwy ymestyn tymor y brydles er mwyn cyfarfod â gofynion grant neu ffurfioli trefniadau trwydded. Os nad y sefydliad cymunedol yw unig ddefnyddiwr yr ased, neu os oes cyfyngiad ar y defnydd, gall yr Awdurdod Lleol gadw'r hawl i'w gynnig fel "Cyfle" cyfyngedig neu gyffredinol i annog cydweithredu a chydleoli. Un enghraifft o hyn yw pafiliwn chwaraeon defnydd sengl, megis rygbi, pêl-droed a bowlio, a allai gael ei ddefnyddio'n fwy dwys drwy greu cymdeithas chwaraeon aml ddisgyblaeth.

Ceisiadau Archwilio

Efallai y bydd Awdurdod Lleol/Corff Cyhoeddus yn derbyn ymholiadau oddi wrth sefydliadau cymunedol ynghylch asedau heb eu nodi fel rhai sydd ar gael i'w trosglwyddo. Dylai'r polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol fod yn ddigon hyblyg i ymdrin â cheisiadau o'r fath ac i ystyried defnyddio'r broses 'Cyfle' i sicrhau tryloywder a thegwch. Mae'r ceisiadau hyn yn cael eu trafod yn y broses cyn ymgeisio yn adran 5.

Awgrymir templed cyn cais yn y ddogfen Ffurflenni a Thempledi.

4.2 Telerau'r Trosglwyddiad

Fel arfer mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn golygu trosglwyddo am lai na phris llawn y farchnad, naill ai am lai o bris neu am bris enwol. Fodd bynnag, gallai sefyllfaoedd godi pan fydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn am bris y farchnad. Gall 'ased' gynnwys tir neu adeiladau. Mae'r math o ddaliadaeth y gellir ei chaniatau'n gallu cynnwys:

- cytundeb rheoli;
- trwydded i feddiannu;
- prydles fer;
- prydles hir;
- trosglwyddo rhyddfrait.

Bydd llawer o sefydliadau sy'n derbyn ased yn dibynnu ar grant ar gyfer ei ddatblygu. Bydd rhai cyllidwyr grantiau'n gofyn am ddaliadaeth benodol megis rhyddfrait, neu brydles gymharol hir, er enghraifft, 25 mlynedd neu fwy. Efallai hefyd y bydd disgwyliad y bydd yr ased yn cael ei drosglwyddo am ddim cydnabyddiaeth. Mae'r rhan fwyaf o asedau cymunedol yn cael eu trosglwyddo i'r corff sy'n derbyn ar brydles gyda thelerau trwsio ac yswirio llawn a gall hyn gael ei gynnwys fel rhagdybiaeth mewn polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau, gall y Corff/Awdurdod sy'n Trosglwyddo gadw'r cyfrifoldeb am rai mathau o waith trwsio, rhai allanol fel arfer, a chodi ychydig o rent yn hytrach na dim cydnabyddiaeth o gwbl. Argymhellir felly y dylai'r polisi fod yn hyblyg yn hytrach nag yn rhagnodol o ran daliadaeth, gwerth y trosglwyddiad a'r cyfrifoldebau trwsio.

Drwy fod yn hyblyg, hefyd, bydd y Corff/Awdurdod sy'n Trosglwyddo yn gallu awgrymu telerau meddiannaeth gwahanol os nad yw'r ymgeisydd yn cyfarfod â'u holl meini prawf. Gallai hynny gynnwys prydles am lai gyfnod nag yn y cais gwreiddiol, yn enwedig

os mai cymharol newydd yw'r sefydliad neu fod yna bryderon dros gynaliadwyedd ac ariannu yn y tymor hir.

Mae gofyn i'r Corff Trosglwyddo ystyried cyfnod y brydles ac a fyddai'n briodol trosglwyddo'r rhyddfrait. Dylai'r penderfyniad hwn cael ei ddylanwadu gan faint o gyfalaf y byddai'r corff corfforedig ei angen i ddatblygu'r adeilad a'r syniad busnes. Os bydd angen benthyciad mawr, bydd darparwydd y benthyciad yn disgwyl mwy o dâl er mwyn gwarchod ei fuddsoddiad.

4.3 Cysylltu ac Ymgynghori

Anogir ymgeiswyr i gysylltu â sefydliadau cenedlaethol a/neu rhai sy'n cynrychioli'r Trydydd Sector i baratoi eu Datganiad o Ddiddordeb a'u Cynlluniau Busnes Llawn. Efallai y bydd gan y sefydliadau hyn staff arbenigol a allai eu cynghori ar faterion megis datblygiad ac hyfywdra yr ased, llywodraethu, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ynni, y model busnes, ariannu a chyllid buddsoddi.

Byddai hynny o gymorth i leihau'r nifer o geisiadau aflwyddiannus ac yn helpu Sefydliad Cymunedol i benderfynu a yw ased yn hyfyw ac yn addas at ei ddiben. Mae cymorth i'w gael i'w haelodau i hyrwyddo cyfleoedd i drosglwyddo asedau gan y sefydliadau canlynol:

- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA);
- Cyngorau Gwirfoddol Sirol (CVCs);
- Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo;
- Canolfan Gydweithredol Cymru;
- Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru;
- Un Llais Cymru.

Mae cysylltu â, ac ennyn cefnogaeth aelodau etholedig, yn bwysig; bydd ganddyn nhw gysylltiadau gyda grwpiau lleol a thystiolaeth o'r angen a'r gofyn yn y gymuned. Mae'n bwysig hefyd eu bod yn deall y canlyniadau o gael asedau mewn perchnogaeth gymunedol a chynaliadwyedd hynny. Argymhellir fod Awdurdodau Lleol yn cynnwys aelodau wrth ddatblygu eu polisïau ac yn darparu hyfforddiant a gwybodaeth i egluro sut mae'r broses yn gweithio'n ymarferol.

Dylai Awdurdodau Lleol neu unrhyw Gorff Cyhoeddus arall hefyd ymgynghori â'u Cyngorau Tref a Chymuned ynghylch eu cynigion i Drosglwyddo Asedau Cymunedol. Yn ddelfrydol, dylai hyn gael ei wneud ar lefel strategol fel rhan o brosesau rheoli ac adolygu asedau Awdurdodau Lleol. Byddai hynny'n eu galluogi i gynllunio'n well pa asedau, ac o bosibl wasanaethau, sydd o ddiddordeb, yn hytrach na gorfod ymateb i gyfleoedd unigol. Dylid hefyd ymgynghori â Cyngorau Tref a Chymuned ynglŷn â cheisiadau Datganiad o Ddiddordeb unigol sy'n cael eu derbyn o fewn eu ffiniau.

4.4 Ariannu

Nid bwriad y ddogfen hon yw cyflwyno cyngor manwl ynghylch trefniadau ariannu.

Gall Cyngorau Tref a Chymuned gael cyngor trwy Un Llais Cymru ynghylch ffynonellau posibl o arian gan gynnwys Benthyciadau Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae Cyngorau Tref a Chymuned yn gallu benthyc arian at ddibenion cyfalaf. Ewch i https://llyw.cymru/cymeradwyaethau-benthyc-a-canllawiau-ar-gyfer-cyngorau-tref-chymuned?_ga=2.190952554.1775350859.1564577780-1957828168.1561996144.

Cyngorir sefydliadau'r trydydd sector i gysylltu â'u Cyngor Gwirfoddol Sirol Lleol neu â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sydd â thudalen ynghylch ariannu ar ei wefan: <https://www.wcva.org.uk/funding?seq.lang=cy-GB>

Mae yna, fodd bynnag, nifer o ffynonellau posibl eraill o arian, gan gynnwys:

Y Banc Elusennau (<http://www.charitybank.org/>) – banc cynilo a benthyc gyda chenhadaeth i ddefnyddio arian er lles pawb. Mae'n cynnig benthyciadau hyd at £2.5 miliwn i fentrau a Sefydliadau Cymunedol gyda diben cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r benthyciadau ar gael i helpu i brynu eiddo, datblygu adnoddau cymunedol, ariannu prosiectau cymdeithasol ac i roi cymorth gyda gwaith o ddydd i ddydd wrth ddisgwyl i'r arian grant gyrraedd.

Bancio Cymunedol Robert Owen (<http://www.rocbf.co.uk>) – cwmni cyllid nid er elw yn gweithio i adeiladu economïau lleol gwytnach yng Nghymru. Mae'n cynnig benthyciadau a chyllid buddsoddi i greu asedau ac etifeddiaeth i gymunedau lleol a helpu i agor ffynonellau cynaliadwy o incwm.

Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru: (https://llyw.cymru/rhaglen-cyfleusterau-cymunedol-0?_ga=2.180027236.1775350859.1564577780-1957828168.1561996144) – cynllun grant y gellir ei ddefnyddio i wella adnoddau cymunedol sy'n cael eu defnyddio'n dda gan bobl yn y gymuned. Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel; grantiau bychain o dan £25,000 a grantiau mwy o hyd at £250,000.

Banc Triodos (<http://www.triodos.co.uk>) – sy'n cynnig cyngor ariannol ar gyfer newidiadau positif, yn gymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Grant Finder (<http://www.grantfinder.co.uk/>) – gwasanaeth tanysgrifio i ganfod grant a allai fod yn berthnasol i chi.

Banc Unity Trust (<https://www.unity.co.uk>) – banc ar gyfer sefydliadau a busnesau sy'n creu budd cymunedol, cymdeithasol neu amgylcheddol mewn ffordd sy'n gynaliadwy yn ariannol; mae'n cynnig bancio a chyllid arbenigol i sefydliadau sy'n effeithio'n bositif ar eu cymunedau.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – Buddsoddi Cymdeithasol Cymru (<https://www.wcva.org.uk/funding/social-investment-cymru?seq.lang=cy-GB>) – yn gweithredu nifer o gynlluniau ariannu a benthyca ad-daladwy ar gyfer prynu neu fuddsoddi mewn Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau (<http://www.yac.cymru/?force=2>; <https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh-building-communities>) – Ymddiriedolaeth newydd sy'n cefnogi pobl a lleoedd mewn cymunedau difreintiedig yng Nghymru i ddatblygu atebion i broblemau lleol a chreu cymunedau cryfach trwy Gronfa Ymddiriedolaeth £15 miliwn.

Cronfa Dreftadaeth y Loteri
<https://www.heritagefund.org.uk/cy/node/107809>

CADW <https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth?lang=en>

Cronfa Dreftadaeth Bensaernïol
<http://ahfund.org.uk/wales>

Cyllid Cydweithredol a Chymunedol (<https://coopfinance.coop>) – sy'n benthyca i'r rhai sy'n ymarfer egwyddorion cydweithio, perchnogaeth gymdeithasol a datblygu cynaliadwy.

Cyfranddaliadau Cymunedol (<http://cyfranddaliadaucymunedol.cymru.coop/>) – sydd hefyd yn gallu darparu cyllid ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector a chymunedol. Mae arweiniad i'w gael gan Ganolfan Gydweithredol Cymru a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru ynghylch hyn ac ynghylch mentrau cyfranddaliadau cymunedol sy'n cynnwys Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

Mae cyllid hefyd i'w gael gan fanciau'r stryd fawr ar gyfer prosiectau, yn enwedig os bydd potensial masnachol cadarn.

5. Proses Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Mae'n bwysig fod gan bob Awdurdod Lleol/ Corff Cyhoeddus priodol bolisi neu ganllawiau Trosglwyddo Asedau Cymunedol sy'n cynnwys fframwaith tryloyw sy'n dangos sut y bydd ceisiadau am drosglwyddo asedau cymunedol yn cael eu hystyried a'u prosesu.

Ni ddylai'r Corff/Awdurdod sy'n trosglwyddo ystyried diwydrwydd dyladwy priodol fel rhwystr ond yn hytrach fel gweithred bositif i warantu gwydnwch tymor hir yr ased ac fel cefnogaeth i gael cymunedau cryfach, mwy cynaliadwy ac arloesol.

5.1 Y Broses Ymgeisio

Dylai'r broses ymgeisio ddangos yn glir unrhyw bolisi ffurfiol ynghylch Trosglwyddo Asedau Cymunedol a dylai gynnwys amserlenni bras ar gyfer pob cam.

Argymhellir y dylai'r broses ymgeisio ffurfiol fod fesul cam gyda ffurflenni cais safonol yn cael eu darparu er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder.

Mae'r proses fesul cam o fantais i'r ymgeisydd ac i'r Awdurdod Lleol/ Corff Trosglwyddo.

Mae'n sicrhau na fydd adnoddau gwerthfawr yn cael eu gwastraffu ar baratoi ac asesu achosion busnes llawn sydd ag ond ychydig iawn o obaith o lwyddo. Mae hefyd yn dangos cyfle cynnar i amlygu meysydd o wendid y gellid eu cryfhau i gynyddu'r gobaith y byddai'r achos busnes llawn yn llwyddo.

Cyfnod 1 Cyn Cais/Datganiad o

Ddiddordeb – dylid annog trafod opsiynau, addasrwydd a sgôp arfaethedig unrhyw drosglwyddiad cyn ymgeisio.

Cyfnod 2 Datganiad o Ddiddordeb –

Cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb cychwynnol, ffurfiol, a ddylai gynnwys digon o wybodaeth i'r Awdurdod Lleol/ Corff Trosglwyddo allu penderfynu a ddylid symud ymlaen â'r cais rhag creu gormod o waith ychwanegol i'r sefydliad sy'n ymgeisio. Dylai'r wybodaeth a gofynnir amdan yn y templed/ffurflen Datganiad o Ddiddordeb gynnwys o leiaf:

- Enw a manylion cyswllt y sefydliad;
- Y math o sefydliad;
- Strwythur a diben y sefydliad; manylion unrhyw brofiad o reoli asedau/ gwasanaethau;
- Manylion yr ased a'r math o drosglwyddiad;
- Defnydd arfaethedig yr ased;
- Y buddion i'r gymuned, i'r sefydliad (sy'n derbyn) ac i'r Awdurdod Lleol/ Corff Trosglwyddo;
- Manylion partneriaid, cydweithredwyr a rhanddeiliaid a thystiolaeth o gysylltiad â'r gymuned; ac
- Unrhyw wybodaeth/rhagolygon ariannol cychwynnol i gefnogi'r cynnig.

Cyfnod 3 Achos Business Llawn –

Cyflwyno cynllun busnes manwl

- **Y prosiect** – gwybodaeth am y sefydliad, ei werthoedd a'i genhadaeth, ynghyd â nodau ac amcanion y prosiect;
- **Y farchnad** – gwybodaeth am y gymuned mae'r prosiect yn ceisio ei gwasanaethu, marchnadoedd presennol a tharged, manylion ymgynghoriadau cymunedol, manteision arfaethedig y prosiect a chyfleoedd i gydweithredu ac adeiladu partneriaethau;

- **Twf busnes a datblygu** – adolygiad o'r sefydliad gan ddefnyddio dadansoddiad SWOT; y strategaeth datblygu busnes dros gyfnod o bum mlynedd;
- **Rheoli a gweithredu** – llywodraethu, manylion staffio, cynigion ar gyfer datblygu gweithgareddau cymunedol, manylion o weithredu'r ased a'r gwasanaeth, manylion unrhyw bolisiau a gweithdrefnau perthnasol a manylion y gwaith o ddydd i ddydd;
- **Cynllun datblygu/marchnata** – manylion adeiladu a chynnal proffil y prosiect/sefydliad; cyfleoedd posibl ar gyfer ehangu;
- **Cynllun ariannol** – incwm a ragwelir ar gyfer 3–5 mlynedd, proffil gwariant, cynhyrchu incwm, strategaeth codi arian; a
- **Dadansoddiad risg** – gwerthfawrogiad clir o risgiau'r prosiect a'r cynlluniau lliniaru a gynigir.

Cyfnod 4: Argymell, Penderfyniad a Chwblhau

- Cyflwyno'r cais terfynol gydag argymhelliad i'r corff a fydd yn penderfynu;
- Adroddiad penderfynu a throsglwyddo ffurfiol.


5.2 Amserlenni

Dylai'r amserlenni fod yn realistig a bod yn rhoi digon o amser i'r ymgeiswyr baratoi unrhyw ddogfennau sydd eu hangen. Fel arfer, bydd yn cymryd o leiaf chwe mis ar ôl cyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb cyn cael penderfyniad gan y cabinet neu gymeradwyaeth ganddo i benderfyniad ddirprwyedig i drosglwyddo, er mae'n bosibl y bydd yn cymryd llawer mwy. Unwaith eto, mae hyblygrwydd yn bwysig, gan y gallai'r cyfnodau amrywio oherwydd ffactorau allanol megis ceisiadau am arian grant. Dylai'r holl bartïon ddeall y gallai gymryd 12-24 mis i ddatrys problemau cymhleth a datblygu pecynnau ariannu cyfan ar gyfer trosglwyddiadau mawr.

Bydd ffactorau'n cynnwys amodau'r farchnad eiddo, adnoddau mewnol a faint o gefnogaeth allanol sydd ar gael i Gynghorau Tref a Chymuned, yn ogystal â chefnogaeth gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol a sefydliadau cefnogi'r Trydydd Sector eraill. Nid diben yr adran hon yw sefydlu proses gaeth, ond amlygu meysydd y dylid eu hystyried ac awgrymu arferion da er mwyn ceisio cael cysondeb ar draws Awdurdodau. Mae'r canllawiau hefyd yn ceisio gosod argymhellion ar gyfer amserlenni er mwyn lleihau'r risg o golli cyfleoedd drwy brosesau estynedig a hirwyntog.

Mae gwybodaeth bellach yn y ddogfen Enghraifft o Broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol ynghylch y broses a'r amserlenni a awgrymir.

Proses Trosglwyddo Asedau Cymunedol



5.3 Cymryd Penderfyniad

Mae'n bwysig fod unrhyw broses o benderfynu ynghylch Throsglwyddo Asedau Cymunedol yn dryloyw a bod ceisiadau'n cael eu hasesu yn erbyn meini prawf clir. Mae hynny'n arbennig o bwysig pan fydd gwahanol sefydliadau yn ymgeisio am yr un ased. Gallai fod o gymorth, yn enwedig oes gan gorff nifer o drosglwyddiadau ar y gweill, sefydlu grŵp llywio penodol i benderfynu ac awgrymu yn ôl y gofyn. Bydd y penderfyniadau a'r awgrymiadau yn ddarostyngedig i'r prosesau cymeradwyo sydd yn y Polisi Caffaeliadau a Gwarediadau yn ogystal ag i'r safonau ffurfio polisi perthnasol sydd gan y Cyrff Cyhoeddus/Awdurdodau Lleol priodol. Yn ddelfrydol, dylai'r Grŵp Llywio cael ei gadeirio gan y swyddog perthnasol o'r Corff Trosglwyddo sydd â'r cyfrifoldeb o reoli'r broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol. Yn aml iawn, y person hwnnw fydd y Prif Swyddog Ystadau neu gyfatebol.

Dylai'r cynrychiolwyr ar y Grŵp Llywio gynnwys hefyd swyddogion perthnasol y cyngor sy'n gallu cynghori ar faterion cyfreithiol, ariannol, Adnoddau Dynol (TUPE), cynllunio ac unrhyw wasanaeth cysylltiedig. Argymhellir hefyd y dylai'r Grŵp Llywio gynnwys cynrychiolaeth o un, o leiaf, o sefydliad cefnogi'r trydydd sector a bod Un Llais Cymru/ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, fel cynrychiolwyr y sector, yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r datblygiadau er mwyn i cefnogi'n ôl y gofyn. Dylid hefyd ystyried penodi aelod yn 'hyrwyddwr' yn y grŵp llywio ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol.

Wrth asesu a ddylid symud o Gyfnod 2 Datganiad o Ddiddordeb i Gyfnod 3 Achos Busnes Llawn, dylai'r meini prawf gynnwys:

- buddion i'r Gymuned a'r Sefydliad Trydydd Sector a sut maen nhw'n berthnasol i gyflenwi blaenoriaethau'r cyngor;
- y gallu i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg;
- llywodraeth, strwythur ac hanes y sefydliad;
- y buddion posibl o ran gwerth ychwanegol a buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol;
- faint o ddisgownt a ddisgwylir a thelerau'r trosglwyddiad; ac
- unrhyw faterion cyfreithiol yn codi megis cyfyngiadau teitl.

Mae'n bwysig fod unrhyw benderfyniadau'n cael eu cyflwyno i'r ymgeisydd gan roi rhesymau clir os nad yw'r cais yn gallu symud ymlaen i gyfnod 3.

Dylai'r Grŵp Llywio hefyd werthuso cynllun busnes cyfnod 3 ac argymhell a ddylid symud ymlaen i drosglwyddo ai peidio. Yn ogystal ag asesu'n fanylach y meini prawf a gafodd eu hystyried yn y Datganiad o Ddiddordeb, dylai hyn gynnwys:

- risgiau o ran gallu ariannol a threfniadol, llywodraethu a'r gallu i reoli'r ased;
- hanes blaenorol o ddarparu prosiectau a mentrau gwasanaethau cymunedol tebyg;
- i ba raddau y bydd y defnydd arfaethedig yn ymestyn allan ac yn cysylltu'n eang â'r gymuned;
- sut y gwneir y gorau o gyfleoedd i sicrhau cynaliadwyedd e.e. cynhyrchu incwm;
- trefniadau rheolaeth ariannol;

- ar gyfer trosglwyddiadau mawr neu rai gwahanol, a allai gynnwys cynlluniau cynhyrchu incwm, dylai cefnogaeth ychwanegol fod ar gael oddi wrth bobl/cyrff gyda chefnidir busnes er mwyn helpu i asesu hyfywdra'r cynnig;
- cydymffurfiaid â Chymorth Gwladwriaethol, Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) a Rheolau Caffael yr Undeb Ewropeaidd os yn berthnasol;
- unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol e.e. cyfamodau cyfyngu a darpariaethau cymryd yn ôl; a
- threfniadau monitro a gwerthuso e.e. Cytundeb Lefel Gwasanaeth

Mae yna nifer o ddogfennau cefnogi i gyd-fynd â'r canllawiau hyn a allai fod yn ddefnyddiol; sef:

- Enghraifft o'r Broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol;
- Astudiaethau Achos;
- Diwydrwydd Dyladwy;
- Ffurflenni a Thempledi Enghreifftiol;
- Gwybodaeth Bellach a Dolenni Defnyddiol.